

Adroddiad Perfformiad

Hanner blwyddyn: O fis Ebrill i fis Medi 2026 (Chwarter 1 a 2)

1. Pwrpas a sut i ddarllen yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad Llais yn hanner cyntaf 2026-27. Mae'n ateb un cwestiwn i'r Bwrdd: pryd wnaeth pobl ddweud wrthym am eu profiad o ofal iechyd a gofal cymdeithasol, beth wnaethom ni ei wneud ag o, a pha wahaniaeth a wnaeth?

Mae'n cwmpasu Chwarter 1 (mis Ebrill i fis Mehefin) a Chwarter 2 (mis Gorffennaf i fis Medi) gyda'i gilydd, gyda phob chwarter yn cael ei ddangos ar wahân, fel bod y Bwrdd yn gallu gweld y duedd.

Mae'n cwmpasu cyflawni yn erbyn ein cynllun blynyddol, sut y gwnaethom gefnogi pobl, beth wnaeth pobl ddweud wrthym ni, ein sylwadau a'n gwaith polisi, ein cyfathrebiadau, a thraweffaith ein gwaith.

Rhan o'r stori yn unig mae'r ffigyrau ei hadrodd. Y tu ôl iddynt mae llawer iawn o waith gan staff a gwirfoddolwyr ar draws Llais. Gall sylw neu newid gwasanaeth unigol, er enghraifft, olygu misoedd o wrando, casglu tystiolaeth, cyfarfodydd a gwaith dilynol cyn i ni weld canlyniad.

Y tu ôl i bob ffigwr hefyd mae profiad person, neu gymuned yn rhannu sut beth yw gofal iechyd a gofal cymdeithasol iddynt hwy. Mae nifer o bobl yn rhannu eu profiadau gyda ni oherwydd eu bod am i bethau wella, nid yn unig iddynt eu hunain, ond i eraill hefyd.

Rydym yn ddiolchgar i'n holl staff, gwirfoddolwyr a phartneriaid sy'n helpu i droi'r profiadau hynny'n gamau gweithredu, ac yn bwysicaf oll, i'r bobl a'r cymunedau led-led Cymru sy'n ymddiried ynom ni gyda'u straeon a'u profiadau.

Y gadwyn draweffaith

Mae pob enghraifft o draweffaith yn adran 4 hefyd yn cael ei nodi fel cadwyn o bump cam, gyda pha mor bell yr oedd wedi mynd erbyn 30 Medi. Mae hyn yn dangos ble rydym wedi sicrhau newid gwirioneddol i bobl a lle mae'r gwaith yn dal i fynd yn ei flaen.

Cam	Beth mae'n ei olygu
1. Wedi'i Gynllunio	Mae'r gwaith yn cysylltu gyda'n Cynllun Blynnyddol, drwy ganlyniad allweddol neu raglen ymgysylltu a gynlluniwyd, ymweliad neu eiriolaeth.
2. Gwrandawyd	Rydym wedi clywed gan bobl, drwy ymgysylltiad, ymweliadau, arolygon, eiriolaeth neu bartneriaid.
3. Gweithredwyd	Gwnaethom rywbeth gyda'r hyn a glywsom: sylw, cwyn a gefnogwyd, her i newid gwasanaeth, neu dystiolaeth i'r sawl sy'n gwneud penderfyniad.
4. Diogelwyd	Rhoddodd gwasanaeth neu sawl sy'n gwneud penderfyniad ymrwymiad, ateb, ymddiheuriad, penderfyniad neu newid i'w broses.
5. Canlyniad	Mae gennym dystiolaeth bod rhywbeth wedi newid i bobl: eu gofal, eu hamgylchiadau neu eu barn ynghylch penderfyniad.

Mae ymrwymiad gan wasanaeth yn gam pwysig, ond nid ydym yn ei ystyried yn ddeiliant dim ond pan rydym yn gallu gweld y gwahaniaeth i bobl. Lle mae deiliant yn parhau i ddatblygu, rydym yn dweud hynny ac yn sicrhau ei fod yn bwrw yn ei flaen.

2. Crynodeb o'r hanner blwyddyn

Prif negeseuon

- 1. Cyrhaeddom bron i 12,000 o bobl led-led Cymru.** Ymgysylltom gyda 11,940 o bobl drwy 265 o weithgareddau a 11 o ymweliadau. Mae hyn yn cynnwys sgysiau manwl yn ogystal â chyrhaeddiad ehangach mewn digwyddiadau mawr megis Eisteddfod yr Urdd a ffair y glas.
- 2. Rydym yn gwneud gwahaniaeth i bobl.** Mae'r adroddiad hwn yn olrhain 28 enghraifft o draweffaith. Mewn 8 ohonynt, gallwn ddangos newid a gadarnhawyd i bobl, ac mewn 15 arall, mae gwasanaeth wedi gwneud ymrwymiad neu wedi newid ei ddull o weithredu.
- 3. Mae mwy o bobl yn troi atom ni am gymorth gyda chwynion.** Rydym wedi agor 1,912 o achosion/ymholiadau eiriolaeth cwynion a chau 1,573. Cododd achosion newydd o 21% rhwng y chwarteri, yn rhannol oherwydd patrwm tymhorol, ac roeddem yn cefnogi 1,355 o bobl ar 30 Medi. Bydd ein rhaglen gwelliant eiriolaeth cwynion yn ein helpu ni i fodloni'r galw cynyddol wrth gynnal ansawdd.

4. **Rydym yn gweithredu ar yr hyn rydym yn ei glywed.**

Gwnaethom 229 o sylwadau i fyrddau iechyd, awdurdodau lleol a chyrff eraill, fel bod pryderon pobl yn derbyn ateb ffurfiol. Mae rhai ymatebion yn cymryd yn hirach i ddod yn ôl, a chafodd 42 eu cau yn ystod yr hanner blwyddyn. Mae gweithdrefn sylwadau newydd yn lansio ym mis Tachwedd er mwyn gwella ansawdd, amseroldeb a dilynant.

5. **Mae ein cynllun ar y trywydd cywir.** Wedi chwarter cyntaf arafach oherwydd y cyfnod cyn yr etholiad, mae pump o'n chwe amcan ar y blaen o'r hyn a ddisgwyliwyd yn Chwarter 2. Mae tyfu a gwella fel sefydliad ychydig yn araf.

6. **Mae newid gwasanaeth yn tyfu.** Mae gweithgaredd newid gwasanaeth yn cynyddu ar draws Cymru wrth i wasanaethau ymateb i flaenoriaethau a phwysau cenedlaethol. Mae nifer o newidiadau o'r pwys mwyaf i gymunedau lleol. Mae gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu clywed yn defnyddio llawer o adnoddau, a disgwyliwn i'r gwaith hwn dyfu.


Cipolwg

Mesur	Ch1	Ch2	Hanner blwydd yn	Ch1 i Ch2
Pobl yr ymgysylltwyd â hwy	5,985	5,955	11,940	Tebyg
nifer o'r rheiny oedd yn ddigwyddiadau mawr neu'n gysylltiadau a gofnodwyd*	2,904	Oddeutu 1,350	Oddeutu 4,250	
Gweithgareddau ymgysylltu	103	162	265	+57%
Ymweliadau	3	8	11	5
Ymatebion i arolygon cenedlaethol	58	93	151	+60%
Ymatebion arolwg Criw Llais	16	50	66	+34
Achosion eiriolaeth newydd	865	1,047	1,912	+21%
Achosion eiriolaeth a gaewyd	711	862	1,573	+21%

Mesur	Ch1	Ch2	Hanner blwydd yn	Ch1 i Ch2
Achosion eiriolaeth ar agor ar ddiwedd y chwarter	1,287	1,355	1,355	+5%
Sylwadau newydd	140	89	229	-36%
Sylwadau a gafodd eu cau	37	5	42	-32
Ymatebion i ymgynghoriadau a pholisïau	4 (ynghyd â thystiolaeth lafar)	12 (gan gynnwys cyfranogiad parhaus)		Heb fod yn debyg am debyg
Presenoldeb ar Fyrddau a gweithgorau / yn cynrychioli Llais	122	148	270	+21%
Cyfeiriadau yn y cyfryngau	126	176		

**Ch1: Ymgysylltiad Eisteddfod yr Urdd (2,316) ac ymgysylltiad strôc Hywel Dda (588). C2: Ffair y glas Coleg Gwent (900 o gysylltiadau), a digwyddiad gwobrau staff bwrdd iechyd (400) a'r rhai a dderbyniodd grynoded mis Gorffennaf (50).*

Ffigwr 1: Achosion eiriolaeth cwynion a agorwyd ac a gaewyd fesul chwarter



Fesul rhanbarth

Rhanbarth	Pobl yr ymgysyllt wyd â hwy Ch1	Pobl yr ymgysyllt wyd â hwy Ch2	Eiriolaeth newydd Ch1	Eiriolaeth newydd Ch2	Achosion ar agor 30 Medi	Sylwadau newydd Ch1	Sylwadau newydd Ch2
Caerdydd a'r Fro	96	407	43	26	100	9	0
Cwm Taf Morgannwg	309	377	22	16	30	23	7
Gwent	899	1,302	220	185	268	23	14
Powys	422	1,033	38	65	119	6	14
Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe	220	738	145	181	298	12	7
Gogledd Cymru	673	1,666	281	304	233	43	18
Gorllewin Cymru	659	129	104	253	262	6	14
Cenedlaeth ol*	2,707	303	12	17	45	18	15
Cyfanswm	5,985	5,955	865	1,047	1,355	140	89

**Gweithgareddau cenedlaethol yw digwyddiadau cenedlaethol.
Eiriolaeth genedlaethol yw'r gwasanaeth eiriolaeth cancr cenedlaethol.*


Cododd ymgysylltiad Gwent a gogledd Cymru yn Chwarter 2 yn bennaf oherwydd digwyddiadau ffair y glas a'r digwyddiad gwobrau staff. Gostyngodd ymgysylltiad gorllewin Cymru oherwydd bod Chwarter 1 yn cynnwys y digwyddiadau ymgysylltu strôc, ond bu i'w hachosion newydd o eiriolaeth fwy na dyblu (104 i 253). Cynyddodd Caerdydd a'r Fro o 5 gweithgaredd i 23 gweithgaredd drwy waith Lleol Llais ym Mhenarth.

3. Cyflawni yn erbyn ein cynllun

Cynnydd yn erbyn y Cynllun Blynnyddol, fel y'i cofnodwyd yn ein OKRau ar ddiwedd bob chwarter.

Amcan	Ch1 cynlluni wyd	Ch1 gwirione ddol	Ch1 statws	Ch2 disgwylied ig	Ch2 gwirione ddol	Ch2 sefyllfa
0. Ein gwaith o ddydd i ddydd	20%	32%	Ar y trywyd d cywir	50%	58%	Ar y blaen (+8)
1. Symbylu sgwrs genedlaethol	32%	35%	Ar y trywyd d cywir	42%	50%	Ar y blaen (+8)
2. Pwyso am wasanaethau sy'n bodloni anghenion pobl	40%	12%	Mewn perygl	34%	39%	Ar y blaen (+5)
3. Gweithio gyda'n gilydd yn well	40%	26%	Mewn perygl	47%	51%	Ar y blaen (+4)
4. Technoleg sy'n gweithio i bobl	13%	2%	Araf	17%	25%	Ar y blaen (+8)
5. Tyfu a gwella fel sefydliad	34%	22%	Mewn perygl	54%	48%	Araf (-6)

Ffigwr 2: Cynnydd yn erbyn y sefyllfa ddisgwyliedig ar ddiwedd Chwarter 2, fesul amcan



4. Traweffaith: o wrando i ddeilliant

4.1 Yr hyn wnaethom gynllunio i wrando arno

Mae ein gwaith gwranddo yn cael ei gynllunio. Bob chwarter, rydym yn penderfynu ble i fod fel y gallwn glywed gan amrywiaeth eang o bobl, gan gynnwys rhai sy'n cael eu clywed yn llai aml, ac fel ein bod yn clywed am y gwasanaethau a'r newidiadau sy'n cyfrif fwyaf i gymunedau ar y pryd hwnnw.

Chwarter 1: digwyddiadau cenedlaethol (Race Equality First, Ffair Iechyd, y Sioe Iechyd a Llesiant, Eisteddfod yr Urdd, Pride Cymru, Gofod3, MELA Caerdydd a LD AdFest), ymweliadau â thair uned iechyd meddwl cleifion mewnol yng ngogledd Cymru, ac ymgysylltiad rhanbarthol ym mhob ardal ranbarthol.

Chwarter 2: digwyddiadau cenedlaethol (Gwobrau One Voice Wales, Y Sioe Frenhinol, yr Eisteddfod Genedlaethol a Care at What Cost yn y Pierhead), wyth ymweliad, gwaith Llais Lleol ym Mhenarth, Ystradgynlais ac Aberhonddu, digwyddiadau wythnos y glas gyda myfyrwyr, ac ymgysylltiad ieuenctid Criw Llais.

Roedd y ddau chwarter hefyd yn cynnwys ymholiadau o ddydd i ddydd, eiriolaeth cwynion a monitro newid gwasanaeth.

4.2 Straeon traweffaith

Mae tri phrofiad yn dangos y gadwyn o'i dechrau i'w diwedd: deilliant i un person, cwyn unigol a arweiniodd at ymrwymiad i gleifion eraill, a newid i ymwneud y cyhoedd gyda darparu gwasanaeth. Mae pob enghraifft rydym wedi'i chyfri wedi'i rhestru yn 4.3.

Oriau gofal wedi'u cynyddu yn dilyn ailasesiad (Powys, Ch1)

Wedi'i Gynllunio. Eiriolaeth cwynion o ddydd i ddydd (canlyniad allweddol 0.1).

Gwrandawyd. Cafodd person gydag anghenion gofal corfforol sylweddol ei horiau o gymorth personol wedi'u torri. Roedd hi wedi cwyno wrth yr awdurdod lleol ond ni chafodd ateb ac nid oedd yn gwybod sut roedd y broses yn gweithio.

Gweithredwyd. Sicrhawyd gwybodaeth gennym a llythyr ymateb ar ei chyfer, oedd yn addo y byddai'n cael ei hailasesu. Fe wnaethom barhau i ddilyn hyn i fyny hyd nes iddo ddigwydd.

Sicrhawyd. Cafodd gweithiwr cymdeithasol newydd ei neilltuo ac aeth yr ailasesu yn ei flaen.

Deilliant i bobl. Cafodd ei horiau gofal ei hailsefydlu. Dywedodd wrthym fod hyn yn 'rhyddhad' a diolchodd i ni am wrando, ac mae bellach yn derbyn y gofal mae ei hangen.

Cam a gyrhaeddwyd: 5. Deilliant.

Practis Meddyg Teulu'n adolygu meddyginiaethau sy'n gallu bod yn gaethiwus (Powys, Ch1)

Wedi'i Gynllunio. Eiriolaeth cwynion o ddydd i ddydd a dysgu o gwynion (canlyniadau allweddol 0.1 a 2.4).

Gwrandawyd. Roedd menyw wedi codi pryderon dro ar ôl tro ynghylch bod ar diazepam a co-codamol yn yr hirdymor a theimlai ei bod wedi ei hanwybyddu hyd nes iddi ddod yn ddibynnol arnynt.

Gweithredwyd. Aethom ati i'w chynorthwyo i ddrafftio ei chwyn a'i hatgyfeirio at eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol. O dan Gwrandaw ar Bobl, fe wnaeth eiriolwyr ei chefnogi mewn cyfarfod gyda'i Meddyg Teulu a rheolwr practis.

Sicrhawyd. Ymddiheuriad, cydnabyddiaeth bod cyfleoedd i drafod lleihau ei meddyginiaeth wedi eu colli, Dadansoddiad Digwyddiad Arwyddocaol, a chynllun i gysylltu gyda chleifion eraill ynghylch meddyginiaethau eraill a allai fod yn gaethiwus er mwyn cynnig adolygiadau.

Deilliant i bobl. Mae'n cael ei chefnogi gan fferyllydd y practis i leihau co-codamol a dywedodd ei bod yn teimlo eu bod wedi gwrando arni. Gallai adolygiad y practis fod o fudd i gleifion eraill ar feddyginiaethau tebyg.

Cam a gyrhaeddwyd: 5. Deilliant iddi hi; 4. Sicrhawyd ar gyfer cleifion eraill. Dygwyd ymlaen.

Mwy o amser ar gyfer ymgynghoriad Gorseinon (Bae Caerdydd, Ch2)

Wedi'i Gynllunio. Ymateb i newid gwasanaeth a defnyddio profiad pobl i ddylanwadu arno (canlyniadau allweddol 0.4 a 2.2).

Gwrandawyd. Nid oedd y cynllun ymgysylltu arfaethedig ar gyfer symud 30 o welyau i Ysbyty Singleton yn rhoi digon o gyfle i gymunedau ystyried y newid.

Gweithredwyd. Dywedom wrth y bwrdd iechyd na allem gefnogi'r cynllun, gan nodi argymhellion a thrafod yr amserlen gyda staff hŷn.

Sicrhawyd. Cynllun ymgysylltu diwygiedig.

Deilliant i bobl. Dechreuodd ymgynghoriad wyth wythnos ym mis Medi. Roedd gan gymunedau gyfnod hirach i ddweud eu dweud. Mae'r penderfyniad ynghylch y gwelyau yn parhau i fod ar agor.

Cam a gyrhaeddwyd: 5. Deilliant ar gyfer ymwneud cyhoeddus. Penderfyniad i ddod.

4.3 Cipolwg ar draweffaith

Mae'r tabl yn rhestru enghreifftiau amlwg lle mae'r cofnod yn gadael i ni ddilyn y gadwyn, a'i sefyllfa ar 30 Medi. Mae'r straeon yr adroddwyd amdanynt yn llawn isod wedi'u cynnwys. Mae'r enghreifftiau hyn yn cael eu tynnu o gofnodion, fel eu bod yn dangos ac yn llunio ein traweffaith, nid cyfanswm y gwaith hwnnw.

Cam a gyrhaed dwyd	Rhif	Enghreifftiau
5. Dysgu	8	Oriau gofal wedi'u cynyddu (Powys Ch1). Cwynion a ohiriwyd wedi'u datrys (Powys, Ch1). Meddyginiaeth a chludiant i weld Meddyg Teulu o dan y Cynllun Triniaeth Amgen (Powys, Ch1). Adolygiad meddyginiaethau ar gyfer un claf (Powys, Ch1). Apwyntiad dermatoleg (Powys, Ch2). Camgymeriadau presgripsiynu wedi'u cydnabod mewn cwyn iechyd meddwl (Powys, Ch2). Cymhorthion clyw y gellir eu hailwefru yn parhau (gogledd Cymru, Ch2). Ymgynghoriad Gorseionon wedi'i ymestyn (Bae Abertawe, Ch2).
4. Sicrhaw yd	15	Ward Landsdowne. Heddfan. Data niwroddatblygiadol. Cofrestriad Meddyg Teulu ar gyfer pobl ddigartref (gogledd Cymru). Ymwybyddiaeth Gwranddo ar Bobl mewn gofal cynradd. Panel cyfranogi Pobl Fyddar a BSL (Gwent), bellach yn cael ei adrodd fel ei fod wedi'i ddatblygu gyda Llais. Y Ddyletswydd Gonestrwydd (ein rhan: craffu). Cynllun peilot cludo gofalwyr (gogledd Cymru). Asesiad ADHD wedi'i gynnig (Powys). Tai wedi'u haddasu'n cael eu cynnig (Powys). Ymateb i gŵyn bellach wedi atgyfeiriad gan yr Ombwdsmon (Bae Abertawe). Sgan CT o fewn pum diwrnod (Cwm Taf Morgannwg). Proses deg ar gyfer Gwella Gyda'n Gilydd a Llanrhaeadr (Powys). Tîm Iechyd Meddwl wedi'i gysylltu gyda Sefydliad Jac Lewis (Bae Abertawe).
3. Gweithredwyd	5	Porth mynediad deintyddol. Maesteg (penderfyniad heb newid). Gohiriad mewn llawdriniaethau cadarnhau rhyw. Mynediad at y Gymraeg a'r Cynnig Gweithredol. Ymweliadau iechyd yn ystod gweithredu diwydiannol (Cwm Taf Morgannwg).

Wrth i'n cofnodi wella, bydd adroddiadau'r dyfodol yn gallu dangos holl faint ein traweffaith, nid dim ond enghreifftiau a ddetholwyd.

4.4 Newid mewn gwasanaeth

Newid gwasanaeth yw un o'r rhannau mwyaf gweledol o'n gwaith sy'n gofyn am lawer o adnoddau. Aethom ati i olrhain 52, 27 a 42 o newidiadau gwasanaeth byw o fis Ebrill i fis Mehefin a 39, 54 a 50 o fis Gorffennaf i fis Medi.

Cipolwg misol yw'r rhain o'r un newidiadau, fel nad ydynt yn cael eu hychwanegu at ei gilydd.

Ar gyfer bob un, ein rôl yw sicrhau bod y bobl yr effeithir arnynt wedi cael eu hymgysylltu â hwy yn iawn, bod eu safbwyntiau'n cyrraedd rhai sy'n gwneud penderfyniadau cyn i benderfyniadau gael eu gwneud, a bod y broses yn un deg.

Enghreifftiau ar hyd a lled Cymru yn ystod yr hanner blwyddyn:

Maes	Newid gwasanaeth	Ein rôl a'n sefyllfa ar 30 Medi
Powys	Gwella Gyda'n Gilydd: dyfodol gwelyau ysbyty cymunedol, unedau mân-newidiadau a theithio. Y bwriad arfaethedig i gau cangen meddygfa Llanrhaeadr-ym-Mochnant.	Galwom am broses gynhwysol, dryloyw gydag adolygiad canol y tymor. Roedd yr ymgynghoriad yn fod i ddechrau ar 5 Hydref. Mae panel adolygu cangen y feddygfa yn cwrdd ar 9 Tachwedd.
Bae Abertawe	Symud 30 o welyau o Gorseinon i Singleton. Lleihad dros dro mewn gwelyau iechyd meddwl pobl hŷn.	Aethom ati i herio'r cynllun ymgysylltu a sicrhau ymgynghoriad wyth wythnos (adran 4.2).
Cwm Taf Morgannwg	Ysbyty Cymunedol Maesteg, y ward gofal lliniarol yn Ysbyty Cwm Cynon, y symudiad dros dro o gleifion mewnol gastroenteroleg.	Cyflwynom farn pobl i Fwrdd y bwrdd iechyd cyn iddo benderfynu. Aeth y ddau achos o gau yn eu blaen. Rydym yn craffu ar y cynlluniau ar gyfer ymgysylltu ar ganolfan newydd Cwm Llynfi.

Maes	Newid gwasanaeth	Ein rôl a'n sefyllfa ar 30 Medi
Hywel Dda	Y Cynllun gwasanaethau clinigol, gan gynnwys gwasanaethau strôc.	Mynychwyd pum digwyddiad ymgysylltu gyda 588 o bobl yn Chwarter 1. Cyfleuwyd yr hyn a glywsom wrth y bwrdd iechyd a gwiriwyd i weld a oedd pobl yn teimlo bod eu lleisiau wedi'u gwrandio arnynt.
Betsi Cadwaladr	Ysbytai cymunedol Penley a Thywyn. Newidiadau ffiniau Meddyg Teulu yn Sir Ddinbych.	Fe wnaethom fynegi pryderon ynghylch teithio, tegwch a mynediad gwledig. Ymgynghoriad Penley i agor ym mis Hydref; mae Tywyn yn symud at ymgynghoriad; a datblygwyd cyfnod ymgysylltu hirach yn Sir Ddinbych.
Cenedlaethol	Y gohirio mewn llawdriniaethau cadarnhau rhyw. Cymhwysedd mwy tynn ar gyfer cludiant i gleifion nad yw'n achos brys. Cynlluniau'r gwasanaethau ambiwlans yn y dyfodol.	Galwom am eglurder ac ymwneud cyhoeddus. Yn dilyn ein sylw, cytunodd Gwasanaeth Ambiwylans Cymru i gyhoeddi gwybodaeth cludiant i gleifion mwy eglur a chysylltu'n uniongyrchol gyda phobl.

Teimlad lleol cryf. Mae nifer o'r newidiadau hyn yn bwysig iawn i'r cymunedau yr effeithir arnynt. Mae pobl yn gwerthfawrogi eu hysbytai a'u meddygfeydd lleol, ac yn poeni am orfod teithio, yn arbennig felly mewn ardaloedd gwledig. Mewn nifer o ardaloedd, mae cymunedau wedi trefnu eu hunain yn grwpiau ac maent yn cyflwyno eu hachos i Weinidogion Cymru. Rydym yn gwrandio ar eu safbwyntiau ac yn sicrhau bod y safbwyntiau'n cael eu mynegi ochr yn ochr ag eraill.

Clywed pob llais. Rydym hefyd yn ceisio ymgysylltu, neu'n gofyn i wasanaethau ymgysylltu, gyda phobl a allai fod yn gweld pethau'n

wahanol neu sy'n cael eu clywed yn llai aml mewn cyfarfodydd cyhoeddus, megis pobl iau a theuluoedd, gofalwyr di-dâl, a phobl nad ydynt yn gallu teithio i gyfarfodydd. Mae proses deg yn clywed pawb ohonynt, a dyna'r prawf rydym ni'n ei gymhwyso i bob ymgysylltiad.

Y gwaith a olygwyd. Gall pob newid olygu mynychu cyfarfodydd cyhoeddus a sesiynau galw heibio, adolygu cynlluniau ymgysylltu a phapurau bwrdd, gohebiaeth gydag aelodau o'r cyhoedd sy'n bryderus, ymatebion ffurfiol i wasanaethau, a dilyn y newid hyd at benderfyniad a thu hwnt.

5. Yr hyn a ddywedodd pobl wrthym

Mae'r papur Beth Rydym yn ei Glywed (eitem 11 ar wahân ar agenda'r Bwrdd) ar wahân yn nodi beth mae pobl wedi'i ddweud wrthym rhwng mis Ebrill a mis Medi, wedi'i ddadansoddi yn erbyn Egwyddorion Pobl.

I grynhoi, roedd yr arwyddion cryfaf ynghylch mynediad, cyfathrebu clir, gofal cydgysylltiedig a chefnogaeth wrth aros. Dywedodd pobl wrthym fod canfod eu ffordd drwy ofal yn aml yn galetach na'i dderbyn, a bod yr hyn sy'n digwydd unwaith mae gofal yn dechrau yn cyfrif gymaint â dechrau ei dderbyn.

Roedd gofal da yn edrych yr un fath ym mhobman: roedd pobl yn cael eu gwrandao arnynt, roedd gwybodaeth yn eu dilyn ac roedd rhywun yn dilyn ymlaen ar gyfer person oedd yn defnyddio'r gwasanaeth.

Gofal cymdeithasol

Dyw ein tystiolaeth ynghylch gofal cymdeithasol ddim mor gyfoethog ag yw ar y GIG eto. Roedd 24 o'r 196 o sylwadau rhanbarthol yn cyffwrdd â gofal cymdeithasol (11 am ofal cymdeithasol yn unig a 13 am y ddau), ac roedd y gyfran o ymgysylltiadau neu ymweliadau gofal cymdeithasol yn unig yn isel o'i chymharu gydag ieuchyd. Fodd bynnag, mae yna sylw ac ymwneud cenedlaethol rheolaidd gyda'r Swyddfa Dros Ofal a Chefnogaeth, Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru Gyfan, sefydliadau Gofalwyr, Arolygiaeth Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Tîm Integreiddio Llywodraeth Cymru, a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r rhaglen System Gofal Cymunedol Integredig.

Bydd cyflwyno hyrwyddwr gofal cymdeithasol yn Ch3 yn cefnogi ffocws mwy eglur ar ofal cymdeithasol ar lefel rhanbarthol a lleol, a defnyddio'r

ariannu a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r rôl hon, sefydlu llwybr cynaliadwy ar gyfer ymgysylltiad rhanbarthol cynyddol, mewnwelediadau, cyfathrebu, a gweithio mewn partneriaeth yn y sector.

Rydym yn bwriadu cofnodi gwybodaeth gofal cymdeithasol yn fwy cyson a chanolbwyntio mwy ar bobl yn derbyn gofal a gofalwyr di-dâl.

Mae peth o'r hyn a glywsom yn y 6 mis cyntaf yn ddifrifol: newid gweithwyr cymdeithasol, gohiriadau i asesiadau a phhecynnau gofal, prinder cartrefi gofal, gofal seibiant yn cael ei ohirio, gofalwyr yn cael eu hepgor o gynlluniau rhyddhau o'r ysbyty, a phreswylwyr cartrefi gofal heb feddyginiaeth am dri diwrnod neu fwy. Mae canfyddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru yn Sir y Fflint, Pen-y-bont ar Ogwr a Sir Fynwy'n cyd-fynd gyda'r hyn rydym yn ei glywed. Cafodd y camau gweithredu a gymerom ynghylch preswylwyr cartrefi gofal yn mynd heb feddyginiaeth, er enghraifft, eu codi gyda'r awdurdod lleol a thrwy ddiogelu.

6. Sylwadau, ymgynghoriadau a pholisi

Sylwadau

Sylwadau yw ein llwybr ffurfiol ar gyfer cyflwyno pryderon pobl i fyrddau iechyd, awdurdodau lleol a chyrff eraill, a disgwyl ymateb. Maent yn bwysig oherwydd eu bod yn sicrhau bod pryderon pobl yn derbyn ateb ffurfiol. Mae pob un yn golygu casglu tystiolaeth, drafftio a dilyn i fyny, ac mae llawer yn cymryd sawl haen o ohebu.

Gwnaethom 229 o sylwadau newydd yn ystod yr hanner blwyddyn (140 yn Chwarter 1 a 89 yn Chwarter 2), gan gynnwys 33 a wnaed yn genedlaethol, a chau 42. O'r 196 o sylwadau rhanbarthol, roedd 172 ynghylch iechyd, 11 ynghylch gofal cymdeithasol a 13 ynghylch y ddau; nid yw sylwadau cenedlaethol yn cael eu dadansoddi yn y ffordd yma. Gostyngodd achosion o gau sylwadau o 37 yn Chwarter 1 i 5 yn Chwarter 2. Mae dau sylw Chwarter 2 pellach wedi'u nodi eu bod wedi cau mewn cofnodion rhanbarthol ond nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau.

Rydym wedi ail-ddylunio ein gweithdrefn sylwadau gyda'n timau a'i brofi mewn un rhanbarth, gyda chanlyniadau positif. Mae'r weithdrefn newydd, canllawiau, hyfforddiant ac adrodd ar reoli yn lansio ym mis

Tachwedd. Byddant yn gwella ansawdd ac amseroldeb sylwadau a sut rydym yn dilyn i fyny hyd nes y ceir ateb.

Mae rhai partneriaid wedi bod angen amser hirach na'r disgwyl i ymateb, ac mae terfynau amser yn aml wedi eu hystyngi, yn arbennig felly lle mae sefydliadau o dan bwysau sylweddol. Byddwn yn parhau i weithio gyda hwy fel bod pobl yn derbyn atebion.

Ymgynghoriadau a thystiolaeth

Ymateb i ymgynghoriadau a galwadau am dystiolaeth yw un o'r ffyrdd pwysicaf rydym yn dylanwadu ar bolisi a strategaeth genedlaethol. Dyma ble mae ein llais lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn dod ynghyd: mae beth mae pobl yn ei ddweud wrth ein timau mewn cymunedau, drwy eiriolaeth ac ar ymweliadau yn cael ei ddwyn ynghyd yn dystiolaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru, y Senedd, rheoleiddwyr a chyrff y DU, ar draws gofal iechyd a gofal cymdeithasol fel ei gilydd. Mae ein hymateb i Strategaeth Gofalwyr Di-dâl, er enghraifft, wedi tynnu ar safbwyntiau pobl wnaeth gymryd rhan yn ein sgwrs "Y Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Garem" 2025.

Mae hwn yn gorff sylweddol o waith. Dros yr hanner blwyddyn fe wnaethom gyfrannu at 16 o ymgynghoriadau a gweithgareddau polisi gan roi dystiolaeth lafar i bwyllgor Senedd y DU. Mae pob ymateb yn tynnu ar dystiolaeth ar draws ein rhanbarthau, yn aml i derfynau amser byr, ac mae'n cael ei wirio yn erbyn beth mae pobl wedi'i ddweud wrthym fel eu bod yn gallu siarad drostynt hwy, nid drosom ni ein hunain.

Yn Chwarter 1 fe roesom dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Materion Cymreig ar ofal trawsffiniol, ac ymateb i'r Strategaeth Dementia (yn galw am gyswllt a enwir o'r adeg y daw diagnosis), y Strategaeth Gofalwyr Di-dâl (hawliau y gellir eu rhoi ar waith a dangosyddion a gyhoeddwyd), Siarad Gyda Mi Cam 2 (dilyn i fyny wedi adnabod) a chanllawiau Y Cyngor Meddygol Cyffredinol ar gredoau personol. Yn Chwarter 2 fe wnaethom gyfrannu at 12 o weithgareddau ymgynghori a pholisi, gan gynnwys cyfranogiad parhaus. Roeddent yn cynnwys blaenoriaethau Pwyllgor Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd, diwygio'r fframwaith Cyngor Meddygol Cyffredinol, gofal plant nid-er-elw, cynllun clinigol Hywel Dda, anghenion fferyllol a'r strategaeth ganser genedlaethol.

Lle mae'n bosib rydym yn olrhain p'un a yw strategaethau a chanllawiau terfynol yn adlewyrchu'r hyn a ddywedom. Byddwn yn adrodd ar hyn pan mae pob un wedi'i gyhoeddi.

7. Cyfathrebiadau a phroffil cyhoeddus

Mae cyfathrebiadau yn rhan o'r gadwyn draweffaith mewn dwy ffordd. Maent yn mynd â beth mae pobl yn ei ddweud wrthym at wneuthurwyr penderfyniadau a'r cyhoedd, sy'n ychwanegu pwysau at ein sylwadau. Ac maent yn cau'r bwlch drwy ddweud wrth bobl am yr hyn ddigwyddodd i beth maent wedi ei rannu. Nid yw cyrhaeddiad y cyfryngau yn draweffaith ynddo'i hun, felly rydym yn dangos ble mae cyfathrebiadau wedi cysylltu gyda'r gadwyn.

Mesur	Ch1	Ch2
Hysbysiadau i'r wasg a roddwyd	6	14
Cyfeiriadau yn y cyfryngau (ar-lein / darlledu / print)	126 (75 / 33 / 18)	176 (98 / 53 / 25)
Dilynwyr cyfryngau cymdeithasol ar ddiwedd y chwarter	6,743	7,207
Postiadau / argraffiadau cyfryngau cymdeithasol	665 / 155,387	778 / 185,576
Tanysgrifwyr cylchlythyron traweffaith	Dros 5,000	Dros 5,000
Cyfradd agor cylchlythyr traweffaith	30% ym mis Ebrill, 33% ym mis Mai	34% ym mis Gorffennaf, 57% ym mis Medi
Adroddiadau a gyhoeddwyd	14	6

Cyhoeddi	Beth wnaethom ei gyhoeddi	Beth yw ei safle yn y gadwyn
Gwella Gyda'n Gilydd Powys	Dau hysbysiad i'r wasg: ynghylch pryderon am brosesau ymgysylltu a'n disgwyliadau ar gyfer yr ymgynghoriad.	Cefnogi ein galwad am broses deg gydag adolygiad canol tymor. Ymgynghoriad arfaethedig 5 Hydref (cam 4).

Cyhoeddi	Beth wnaethom ei gyhoeddi	Beth yw ei safle yn y gadwyn
Gohiriad mewn llawdriniaeth cadarnhau rhyw	Tri hysbysiad i'r wasg yn galw am eglurder a chefnogaeth ac yn chwilio am atebion.	Wedi cadw profiad pobl yn weladwy. Rydym yn parhau i geisio cael atebion ar ran y bobl yr effeithir arnynt (cam 3).
Darpariaeth Gymraeg	Adroddiad ar fynediad anghyson at ofal yn y Gymraeg, gyda sylw sylweddol yn y cyfryngau.	Wedi'i ddilyn gan sylwadau gan y Cynnig Gweithredol (cam 3).
Gofal brys a gofal ambiwlans	Hysbysiadau i'r wasg ar y pwysau yn y Grange, adroddiad Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru ar adran frys Glan Clwyd ac ymwneud y cyhoedd mewn cynlluniau ambiwlans.	Mae'n bwydo mewn i'n hadolygiad o gynlluniau'r gaeaf y bwrdd iechyd (cam 3).
Cau'r ddolen	Mae "Beth a Glywsom" yn adrodd o'r Sioe lechyd a Lles Meddyliol, Gofod3, MELA Caerdydd a LD AdFest.	Canfyddiadau Chwarter 1 wedi'u dychwelyd i'r cymunedau a gyfranogodd.

Aethom ati hefyd i lansio gwefan newydd a'r podlediad Sgwrsio Gyda. Mae llinellau sylfaen ar gyfer y ddau eto i gael eu gosod, felly byddwn yn adrodd ar eu cyrhaeddiad o Chwarter 3.

8. Edrych ymlaen

Mae hanner cyntaf 2026-27 yn dangos bod Llais yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl a chymunedau led-led Cymru; gan gefnogi pobl gyda'u cwynion, gwneud yn siŵr bod cymunedau'n cael eu gwrando arnynt pan mae gwasanaethau'n newid, a dwyn lleisiau lleol yn rhan o bolisi cenedlaethol.

Mae gennym fwy i'w wneud i atgyfnerthu ansawdd ein gwaith a sut rydym yn ei gofnodi ac yn rhoi tystiolaeth amdano. Mae'r materion wedi eu deall yn dda ac mae pethau ar waith, drwy'r weithdrefn sylw newydd, y rhaglen gwella eiriolaeth cwynion, datblygu ein data a CRM, a'r rôl hyrwyddwr gofal cymdeithasol newydd. Nid ffordd sydyn o wella pethau

yw hyn. Mae datblygu ein pobl, polisïau a gweithdrefnau'n cymryd amser a gofal, a rhaid ei gydbwyso ochr yn ochr â'n darpariaeth ar gyfer y bobl a'r cymunedau rydym ni'n eu gwasanaethu.

I bobl a chymunedau, mae hyn yn golygu pan maent yn rhannu eu profiad gyda Llais, y bydd yn cael ei glywed a'i weithredu arno, ac yn gynyddol ei ddilyn drwyddo fel eu bod yn gallu gweld beth newidiodd o ganlyniad.